**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 23 Hydref 2012**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25ain Medi, 2012 fel cofnod cywir a'u llofnodi gan yr Arweinydd.* |
| **5** | CYDWEITHREDU AR BRIFFYRDD A SEILWAITH CONWY A SIR DDINBYCH | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno:*<br><br>*(i) oherwydd nad yw'r Achos Busnes yn gwneud achos clir o blaid Gwasanaeth Priffyrdd a Seilwaith sydd wedi ei integreiddio'n llawn, nad yw Conwy a Sir Ddinbych yn symud ymlaen â'r opsiwn hwn.*<br>*(ii) Bod Conwy a Sir Ddinbych yn parhau i ystyried cyfleoedd pellach i resymoli rheolaeth, lleihau costau a gwella gwasanaethau i'n trigolion trwy:*<br>➢ *Gryfhau'r meysydd is-wasanaeth hynny sydd dan reolaeth sengl*<br>➢ *Ystyried meysydd is-wasanaeth Priffyrdd a Seilwaith lle gallai cydweithredu ddod â manteision i'n trigolion*<br>➢ *Ystyried cyfleoedd lleol (Awdurdod benodol) i gydweithredu a chael trefniadau cyd-reoli rhwng gwasanaethau presennol*<br>➢ *Cynnal a datblygu ein hymrwymiad i'r datblygiadau rhanbarthol ar gludiant a all, os cânt eu cyflawni yn dda, sicrhau manteision ychwanegol. Bydd angen seilio penderfyniadau ar achos busnes cadarn dros newid mewn perthynas ag elfennau o'r fath, a*<br>*(iii) Bod y Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn adrodd yn ôl i'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2012 ar y gwaith sydd ymhlyg yn Argymhelliad (ii)* |
| **6** | ADRODDIAD DIWEDDARU ARIANNOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod yr Aelodau'n cydnabod y cyllidebau a'r targedau arbed ar gyfer y flwyddyn a'r cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 23 Hydref 2012**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **7** | EIDDO REEMA, GALLT MELYD – OPSIWN ADEILADU A MODEL ARIANNU | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno:*<br>*(i) Bod y Cyngor yn dymchwel yr eiddo REEMA ac yn diogelu'r safle nes ei ailddatblygu.*<br>*(ii) Bod y Cyngor yn parhau gyda'i drafodaethau â Llywodraeth Cymru i ystyried y potensial i gael cymhorthdal tai i ddatblygu Tai Cyngor newydd ar y safle.*<br>*(iii) Bod y Cyngor yn gweithio gyda thrigolion a all ddymuno dychwelyd i safle wedi ei ailddatblygu i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu trin fel rhan o unrhyw ddatblygiad newydd.*<br>*(iv) Bod y Cyngor yn cydnabod darpariaethau Polisi Adleoli Tenantiaid REEMA.* |
| **8** | PENODI CYNGHORWYR I GYRFF ALLANOL | ***PENDERFYNWYD*** *ar ôl i'r Cabinet ystyried Rhestr 1 (cyrff allanol lle'r ystyrir bod cynrychiolaeth Sir Ddinbych yn hanfodol neu'n gorfforaethol-fanteisiol) a Rhestr 2 (cyrff eraill y gellid penodi cynrychiolwyr Sir Ddinbych iddynt), cytunwyd :-*<br><br>*(a) Cymeradwyo'r penodiadau a argymhellwyd a ddangoswyd yn Rhestr 1*<br>*(b) Cymeradwyo'r cyrff yn Rhestr 2 fel rhai â chynrychiolwyr o'r Cyngor ac eithrio Awdurdodau Lleol Di-Niwcliar, a oedd yn destun ystyriaeth bellach.*<br>*(c) Penodi'r Cynghorwyr perthnasol i'r cyrff a gymeradwywyd gan y Cabinet o Restr 2.* |
| **9** | BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *cydnabod Blaen-raglen waith y Cabinet.* |
| **10** | CONTRACT 8 - RHAGLEN GWELLA TAI | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno gyda'r argymhelliad i ddyfarnu'r contract, ar ôl archwiliadau dilysu boddhaol o gyflwyniad tendr y contractwr. Roedd amrediad prisiau tendr yn dangos bod tendr cystadleuol wedi ei geisio sy'n bona fide ac yn addas ar gyfer contract o'r fath. Y contract hwn yw'r contract terfynol o fewn y cytundeb fframwaith a bydd yn sicrhau bod pob eiddo yn cydymffurfio'n llawn â Safon Ansawdd Tai Cymru.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 23 Hydref 2012**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | |